

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynllunio a rheoli effeithiol wrth ymateb i ddigwyddiad enfawr neu sylweddol maleisus neu anfaleisus ar ran y mudiad. Mae hefyd yn ymdrin â chefnogi a chydweithio gyda mudiadau sy'n ymateb i ddigwyddiadau mewn argyfwng ynghyd â gofalu fod y busnes yn parhau a bod pethau'n dychwelyd i normalrwydd.

Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:

1. Asesu risg a bygythiad digwyddiad
2. Cynllunio ar gyfer ymateb i ddigwyddiad enfawr neu sylweddol
3. Rheoli'r ymateb cychwynnol i ddigwyddiad enfawr neu sylweddol
4. Rheoli adferiad yn dilyn digwyddiad

Mae'r safon hon ar gyfer swyddogion diogelwch a staff tebyg sy'n gweithio mewn digwyddiadau chwaraeon neu ddigwyddiadau eraill lle mae gwylwyr neu gynulleidfaoedd.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Asesu risg a bygythiad digwyddiad

1. meddiannu a dadansoddi'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn cynnal asesiad risg a bygythiad
2. cynnal asesiadau risg a bygythiad
3. gwerthuso'r peryglon a bygythiadau ynghlwm â'r digwyddiad
4. cydweithio gydag ymatebwyr mewn argyfwng i wneud y canlynol:
5. cynnal safbwynt cytunedig ynglŷn â'r risgiau sy'n effeithio ar y digwyddiad
6. cynllunio a blaenoriaethu adnoddau angenrheidiol i baratoi ar gyfer y risgiau hynny
7. cofnodi asesiadau risg yn unol â gofynion a chanllawiau cyfundrefnol
8. egluro'r asesiadau risg a bygythiad i randdeiliaid
9. ymglyfuno'r mesurau lliniaru fel ymateb i'r asesiad risg a bygythiad
10. adolygu a diweddarau asesiadau risg a bygythiad fel ymateb i newidiadau yn yr amgylchedd lle mae risgiau
11. cynnal a diweddarau cynlluniau mewn argyfwng
12. cysylltu gyda rhanddeiliaid i ddiweddarau cynlluniau pan fo argyfwng

Cynllunio ar gyfer ymateb i ddigwyddiad enfawr neu sylweddol

11. gwerthuso'r trothwy ymateb ar gyfer y digwyddiad
12. rhannu cyfrifoldebau a thasgau rhwng pawb sydd ynghlwm â'r broses ymateb yn unol â'u dyletswyddau a chyfrifoldebau
13. dewis y person sy'n meddu ar y cyfrifoldeb ac awdurdod i fynd ati i ymateb i ddigwyddiad

14. cynllunio'r defnydd o adnoddau angenrheidiol ar gyfer ymateb

15. asesu'r angen ar gyfer cynllunio hyfforddiant ac ymarferion

16. datblygu cynllun hyfforddiant ac ymarferion

Rheoli'r ymateb cychwynnol i ddigwyddiad enfawr neu sylweddol

16. asesu grwpiau cleient sydd mewn peryg o'u niweidio a'u hanafu

17. cysylltu gyda'r gwasanaethau argyfwng gan rannu gwybodaeth fanwl am y digwyddiad

18. mynd rhagddi i ymateb i'r digwyddiad

19. gweithredu cofnod penderfyniadau

20. parhau i asesu risgiau yn ddynamig ac addasu'r ymateb yn ôl y blaenoriaethau

21. trosglwyddo blaenoriaeth i'r gwasanaethau argyfwng a chynnig yr wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw ynghylch y digwyddiad

22. parhau i gefnogi'r gwasanaethau argyfwng drwy gydol y digwyddiad

23. cyfrannu tuag at neu lunio cynlluniau ar gyfer parhad busnes

Rheoli adferiad yn dilyn digwyddiad

24. cadw a diogelu tystiolaeth i gefnogi ymchwiliad yn dilyn digwyddiad

25. adrodd yn ôl i'r holl rhanddeiliaid a chyflwyno adroddiad ynghylch y digwyddiad

26. adolygu trefniadau cynllunio mewn argyfwng

27. cynnig modd o fanteisio ar adnoddau arbenigol i gefnogi'r rheiny wedi'u heffeithio gan y digwyddiad

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Asesu risg a bygythiad digwyddiad

1. gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol, safonau a chanllawiau ymarfer da cyfredol
2. asesiad risg a lefel bygythiad cenedlaethol a rhanbarthol
3. dyletswyddau a strwythur fforymau gwydnwch lleol ar gyfer cydweithio ar yr asesiad risg
4. nodweddion digwyddiad all ddylanwadu ar debygolrwydd ac effaith digwyddiad enfawr neu sylweddol
5. cynlluniau ar gyfer parhad busnes a digwyddiadau'r mudiad
6. nod, maes ac amcanion cynlluniau a threfniadau digwyddiadau
7. yr adnoddau sydd ar gael er mwyn rheoli digwyddiadau
8. pwysigrwydd gofalu bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn rhan o'r broses cynllunio
9. pwysigrwydd asesu risg yn barhaus yn ystod y digwyddiad
10. dulliau asesiad risg
11. mesurau lliniaru

Cynllunio i ymateb i ddigwyddiad enfawr neu sylweddol

12. rhanddeiliaid a'u dyletswyddau a chyfrifoldebau yn y broses ymateb
13. adnoddau angenrheidiol ar gyfer ymateb
14. egwyddorion cynllunio rheoli digwyddiadau
15. y gylchred cynllunio mewn argyfwng
16. dulliau codi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau a threfniadau digwyddiadau

Rheoli'r ymateb cychwynnol i ddigwyddiad enfawr neu sylweddol

15. effaith dichonol argyfyngau ar grwpiau cleient

-
16. yr wybodaeth sydd angen ei rhannu gyda'r gwasanaethau argyfwng
 17. dulliau cyfathrebu yn ystod digwyddiad enfawr neu sylweddol
 18. pwysigrwydd cyfathrebu'n eglur ac yn drahaus
 19. y broses ar gyfer mynd rhagddi i ymateb i ddigwyddiad enfawr neu sylweddol
 20. pwysigrwydd cofnod penderfyniadau
 21. dulliau cofnodi trafodaethau. penderfyniadau, gweithrediadau a chyfathrebu
 22. dulliau rheoli ymateb i ddigwyddiad
 23. sut i arwain tîm ymateb i ddigwyddiadau a gwneud penderfyniadau
 24. sut i addasu'r ymateb i gefnogi blaenoriaethau
 25. proses trosglwyddo blaenoriaeth i'r gwasanaethau argyfwng
 26. y mathau o gefnogaeth y mae'n bosib y bydd aelodau o'r tîm ymateb a'r gwasanaethau argyfwng eu hangen
 27. cynlluniau ar gyfer parhad busnes

Rheoli adferiad yn dilyn digwyddiad

28. y mathau o dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer ymchwiliad yn dilyn digwyddiad
29. sut i ddiogelu tystiolaeth
30. sut i adrodd yn ôl i'r rheiny ynghlwm
31. llunio adroddiad
32. pwysigrwydd adolygu a gwerthuso ymateb i ddigwyddiad
33. sut i ddefnyddio canfyddiadau gwerthusiad er mwyn gofalu gwelliant parhaus
34. lle a sut i fanteisio ar gefnogaeth ar gyfer y rheiny sydd wedi'u heffeithio gan y digwyddiad

Cwmpas/Ystod

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae disgwyl y bydd gan fudiadau weithdrefnau a chanllawiau i'w staff stiwardio gydymffurfio gyda nhw a fydd yn bodloni'r gofynion canlynol o leiaf:

- anghenion corfforol amrywiol
- anghenion diwylliannol amrywiol
- anghenion ieithyddol
- credoau

*

*

Diogelwch, Amddiffyn a Gwasanaeth

Mae disgwyl caiff yr holl wasanaethau mewn digwyddiadau gyda gwylwyr ac mewn mannau poblog eu cyflawni yn unol â'r mesurau isod:

Mesurau diogelwch: unrhyw fesur a gaiff eu dylunio a'u rhoi ar waith gyda'r prif nod o ddiogelu iechyd a lles yr holl grwpiau cleient sy'n mynychu, neu'n cymryd rhan mewn digwyddiadau.

Mesurau amddiffyn: unrhyw fesur a gaiff eu dylunio a'u rhoi ar waith gyda'r prif nod o atal, lleihau'r risg a/neu ymateb i unrhyw weithgareddau troseddol neu anghyfreithlon neu aflonyddwch yn gysylltiedig â'r digwyddiadau.

Mesurau gwasanaeth: unrhyw fesur a gaiff eu dylunio a'u rhoi ar waith gyda'r prif nod o ofalu bod yr holl grwpiau cleient yn teimlo'n gyfforddus, wedi'u gwerthfawrogi a bod croeso iddyn nhw pan maen nhw'n mynychu digwyddiadau.

Lefelau Bygythiadau Terfysgaeth ym Mhrydain

Mae disgwyl bod uwch stiwardiaid, swyddogion diogelwch a staff tebyg sy'n meddu ar gyfrifoldeb cyffredinol dros ddiogelwch ac amddiffyniaeth digwyddiadau yn gyfarwydd gyda'r lefelau bygythiadau terfysgaeth cyfredol ym Mhrydain.

Mae'r lefel o fygythiad yn dynodi tebygolrwydd o ymosodiad terfysgol ym Mhrydain. Mae 5 lefel o fygythiadau:

- ISEL – mae ymosodiad yn annhebygol
- CYMEDROL- mae ymosodiad yn bosib ond nid ydyw'n debygol

-
- SYLWEDDOL – mae ymosodiad yn bosib iawn
 - DIFRIFOL – mae ymosodiad yn debygol iawn
 - ARGYFYNGUS – mae disgwyl y bydd ymosodiad ar ddigwydd

Caiff y lefel ei bennu gan y Cyd-Ganolfan Dadansoddi Terfysgaeth a'r Gwasanaeth Diogelwch (MI5). Does gan lefelau bygythiol ddim dyddiad dod i ben ond fe allan nhw newid ar unrhyw adeg wrth i wahanol wybodaeth fod ar gael i asiantiaid diogelwch.

Ymddygiadau

Mae'r ymddygiadau canlynol wrth wraidd cyflenwi gwasanaethau yn y sector diogelwch i wylwyr. Mae'r ymddygiadau yn sicrhau bod y mudiad a'r unigolyn yn creu argraff dda ar y cleientiaid.

Mae'n rhaid ichi ddangos eich bod yn cyflawni'r canlynol yn gyson:

1. Adnabod yr angen i fod yn hyblyg er mwyn dwyn i ystyriaeth amgylchiadau newidiol
2. Addasu cynlluniau ac ymatebion fel bo'r angen
3. Blaenoriaethu amcanion a gwaith cynllunio er mwyn manteisio ar y defnydd gorau posib o amser ac adnoddau
4. Gofalu bod amser i gefnogi eraill
5. Cymryd cyfrifoldeb personol dros weithredu rhai pethau
6. Dangos gonestrwydd, tegwch a chysondeb wrth wneud penderfyniadau
7. Cytuno'n eglur ar beth a ddisgwylir gan bobl eraill a'u hystyried nhw'n gyfrifol am herio ymddygiad cymdeithasol er enghraifft.
8. Ceisio deall disgwyliadau pobl ac unrhyw anghenion ychwanegol a medru bodloni'r rhain
9. Cymryd cyfrifoldeb dros ddiogelwch personol
10. Cymryd balchder mewn cynnig gwasanaeth o safon
11. Ymdrechu i fod yn wyladwrus rhag bygythiadau a pheryglon posib
12. Annog a chefnogi eraill i fanteisio i'r eithaf ar eu galluedd.
13. Defnyddio ystod o ddulliau arwain sy'n briodol i wahanol bobl a sefyllfaoedd
14. Eirioli dros ddiogelwch a lles fel blaenoriaeth wrth gynllunio a rheoli digwyddiadau
15. Cymryd balchder yn eich edrychiad a chydymffurfio gydag unrhyw godau gwisg gan y mudiad neu leoliad
16. Cydymffurfio gyda chod ymddygiad y lleoliad
17. Dangos eich gallu i gynnal cyfrinachedd
18. Dangos ymwybyddiaeth o faterion diogelu
19. Dangos dealltwriaeth o ofynion cyfreithiol sylfaenol yn ymwneud ag amrywioldeb a diogelwch

Sgiliau

Dyma restr o'r prif sgiliau a nodweddion cyffredinol sydd eu hangen er mwyn gofalu am ddiogelwch gwylwyr

1. Gwrando a gweithredu
2. Cyfathrebu geiriol ac aneiriol effeithiol
3. Dylanwadu ar ac argyhoeddi eraill
4. Dirprwyo

5. Diplomyddiaeth

6. Empathi
7. Rhoi grym i eraill
8. Gallu i ddilyn cyfarwyddiadau
9. Arwain drwy esiampl
10. Gwydnwch
11. Rheoli ymddygiad heriol
12. Mentora
13. Ysgogi eraill
14. Trafod a chyfaddawdu
15. Derbyn a chynnig adborth
16. Cynllunio a gwerthuso
17. Gosod amcanion
18. Gwerthfawrogi a chefnogi eraill

Geirfa

****Ymatebwyr mewn Argyfwng**** Unrhyw asiantaeth a fydda i'n gallu neu y mae disgwyl iddyn nhw ymateb i ddigwyddiad mewn argyfwng mewn lleoliad. Mae'n bosib y bydd hyn yn golygu un neu fwy o ymatebwyr Categori 1 wedi'u cefnogi gan un neu fwy o'r ymatebwyr Categori 2.

****Ymatebwyr Categori 1 neu Gategori 2**** Fel caiff eu diffinio gan y Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004 a'u diweddarau gan y Swyddfa Cabinet a'r Ysgrifenyddiaeth Argyfyngau Sifil, mae ymatebwyr Categori 1 ar hyn o bryd yn gyrff cyhoeddus fel gwasanaethau argyfwng, Ymddiriedolaethau'r GIG, Gwylwyr y Glannau EM ac awdurdodau lleol. Mae ymatebwyr Categori 2 yn gyrff sector preifat fel cwmnïau gwasanaethau a darparwyr cludiant. ****Cynllunio ar gyfer Parhad Busnes**** Paratoi a datblygu cynlluniau felly os bydd digwyddiad, gall y busnes barhau i weithredu. ****Rheoli Parhad Busnes**** Gweithredu'r cynlluniau ar gyfer parhad busnes sydd wedi'u paratoi eisoes.

****Digwyddiad Enfawr**** Mae'n bosib caiff digwyddiad enfawr neu sylweddol ei ddatgan gan un neu fwy o ymatebwyr categori un neu gategori 2 fel caiff ei ddiffinio yn y Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004.

****Mesurau lliniaru**** Y mesurau hynny wedi'u hadnabod a'u gweithredu gan y mudiad i gyfyngu ar effaith problem, risg, peryg neu fygythiad. ****Digwyddiad Sylweddol****** Mae digwyddiad sylweddol yn ddigwyddiad lle mae angen i fudiad weithredu eu cynlluniau rheoli digwyddiadau neu gynlluniau mewn argyfwng er mwyn mynd i'r afael gydag ac ymateb i ddigwyddiad all amharu ar weithrediad diogel y digwyddiad. Mae'n bosib y bydd angen adnoddau a chefnogaeth ychwanegol gan y rhanddeiliaid er mwyn ymateb i'r digwyddiad. ****Cynllun hyfforddiant ac ymarferion**** Cynllun dreigl o sesiynau hyfforddiant ac ymarferion i wirio, dilysu, adolygu ac arolygu'r trefniadau cynllunio pan fo digwyddiad mewn lleoliad neu ddigwyddiad. ****Trosglwyddo blaenoriaeth**** Yn ystod ymateb i ddigwyddiad, caiff rheolaeth ei drosglwyddo'n ffurfiol i un neu fwy o'r awdurdodau ymateb. Dylid cytuno ar faterion yn ymwneud â throsglwyddo blaenoriaeth gyda gweithdrefnau cyfundrefnol cyn digwyddiad.

Cysylltiadau â SGC eraill

SKASS14, SKASS15, SKASS16, SKASS19, SKASS23

SKASS24

Rheoli ymateb cychwynnol i ddigwyddiad enfawr neu sylweddol a chynllunio tuag at fod yn wydn



Datblygwyd gan

SkillsActive

Dyddiad cymeradwyo

31 Maw 2019

Dyddiad Adolygu Dangosol

31 Maw 2024

Dilysrwydd

Ar hyn o bryd

Statws

Gwreiddiol

Sefydliad cychwynnol

SkillsActive

RCU gwreiddiol

SKASS24

Galwedigaethau perthnasol

Uwch Stiward, Swyddogion Iechyd a Diogelwch

Cyfres/Set

Diogel wch Gwylwyr

Geiriau Allweddol

o gydnerthedd, digwyddiadau, risgiau a bygythiadau